OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 269

# Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010

**Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain**

**13.**—(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff swyddog pysgodfa fôr Brydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo yn nyfroedd Cymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, ar y cyd â phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda dyletswyddau'r swyddog hwnnw neu hebddynt, a chaiff wneud yn ofynnol bod y cwch yn aros, a gwneud unrhyw beth arall i hwyluso mynd ar ei fwrdd neu fynd oddi arno.

(3) Caiff y swyddog wneud yn ofynnol bod meistr y cwch a phersonau eraill sydd ar ei fwrdd yn bresennol, a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymchwiliad sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) ac, yn benodol—

(a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch, ac archwilio unrhyw bysgodyn sydd ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a gwneud yn ofynnol bod personau ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad;

(b) caiff wneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sydd yn ei feddiant neu dan ei ofal ac yn ymwneud â'r cwch, neu ag unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau atodol neu ag unrhyw bersonau sydd ar fwrdd y cwch;

(c) at y diben o wybod a yw meistr, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan y Ddeddf fel y'i darllenir ynghyd â'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r chwiliad;

(ch) archwilio a chopïo unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir neu a ganfyddir ar fwrdd y cwch, ac os yw unrhyw ddogfen o'r fath wedi ei chadw gan ddefnyddio cyfrifiadur, gwneud yn ofynnol ei chynhyrchu mewn ffurf a fydd yn caniatáu ei chludo ymaith; a

(d) os yw'r cwch yn un y mae rheswm gan y swyddog i amau bod tramgwydd wedi ei gyflawni ynglŷn ag ef, o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff y swyddog, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ymafael mewn unrhyw ddogfen o'r fath a ddangoswyd neu a ganfuwyd ar fwrdd y cwch a'i chadw at y diben o alluogi defnyddio'r ddogfen yn dystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3)(d) sy'n caniatáu ymafael mewn unrhyw ddogfen a'i chadw os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith cario'r ddogfen ar fwrdd y cwch, ac eithrio pan fo'r cwch yn cael ei gadw'n gaeth mewn porthladd.

(5) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfa fôr Brydeinig fod tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol wedi ei gyflawni ar unrhyw adeg mewn perthynas â chwch pysgota, caiff y swyddog—

(a) mynd â'r cwch a'i griw, neu wneud yn ofynnol bod y meistr yn mynd â'r cwch a'i griw, i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf; a

(b) cadw'r cwch yn gaeth yn y porthladd, neu wneud yn ofynnol bod y meistr yn ei gadw'n gaeth yno.

(6) Rhaid i swyddog pysgodfa fôr Brydeinig sy'n cadw cwch yn gaeth, neu'n gwneud yn ofynnol ei gadw'n gaeth, gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y cedwir y cwch yn gaeth, neu ei bod yn ofynnol ei gadw'n gaeth hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodir gan swyddog pysgodfa fôr Brydeinig.

(7) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog pysgodfa fôr Brydeinig.